



ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU

11 Tachwedd 2021

TEITL:	Bargen Twf Canolbarth Cymru – Ymgysylltu â'r Sector Busnes
AWDUR:	Paul Griffiths – Cynghorydd ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru

1. Cyflwyniad a chefnidir

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 21 Medi 2021, penderfynodd yr Aelodau adolygu'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r sector preifat mewn perthynas â datblygu'r Fargen Twf ymhellach. Gan fod yr Achos Busnes Portffolio bellach wedi'i gyflwyno i Lywodraethau Cymru a'r DU, a bod y GSE wedi gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd, ystyriwyd ei bod yn amser priodol i adolygu trefniadau. Yn ogystal, ac i ryw raddau yn anochel, roedd rhai aelodau o'r GSE yn dymuno mynd ar drywydd ceisiadau i'r Fargen Twf, ac roedd hynny'n creu potensial newydd am wrthdaro buddiannau, yn enwedig wrth i brosiectau o'r fath ddatblygu ac aeddfedu.

Ar ôl penderfynu ystyried trefniadau newydd ar gyfer ymgysylltu ag arweinwyr busnes, gofynnodd yr Aelodau am adroddiad fel mater o frys i sicrhau cyfranogiad parhaus y sector busnes wrth i'r Fargen Dwf symud tuag at Gytundeb y Fargen Derfynol erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

2. Cylch Gorchwyl Newydd

Mae Cylch Gorchwyl drafft ynghlwm i'w ystyried fel y gall recriwtio i grŵp arweinwyr busnes amgen ddechrau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd. Mae'r Cylch Gorchwyl hwn wedi'i gynllunio i adlewyrchu anghenion y Fargen Dwf yn y dyfodol wrth i'r gwaith symud o ddatblygu Achos Busnes Portffolio Strategol i gynigion manylach sy'n cynnwys Rhaglenni a Phrosiectau. Awgrymir y bydd angen rhoi ystyriaeth gyda ffocws i hyn gyda threfniadau mwy ystwyth yn eu lle. Bydd hyn yn helpu gydag ymatebion wrth i raglenni ddatblygu ac aeddfedu, ac wrth i brosiectau symud o egin i ddyluniad manwl sy'n adlewyrchu anghenion y Model Busnes 5 Achos.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys nifer o newidiadau sylfaenol i'r cylch gorchwyl a fabwysiadwyd ar gyfer y Grŵp Strategaeth Economaidd (GSE - ESG) ac maent yn cael eu hesbonio'n fanylach isod.

3. Teitl y Grŵp Busnes

Cynigir y dylid newid teitl y grŵp i'r Grŵp Cynghori Economaidd (GCE) er mwyn adlewyrchu diben sylfaenol y grŵp yn fwy cywir. Rôl y grŵp yw cynnig cyngor i'r Bwrdd ar gryfder neu fel arall y rhaglenni a'r prosiectau a ddatblygir yn unol â'r Achos Busnes Portffolio. Bydd y

grŵp yn darparu profiad a gwybodaeth y sector busnes i asesu'r gwahanol gynigion wrth iddynt symud drwy'r dull Model Busnes 5 Achos. Gan mai'r Bwrdd fydd yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â rhaglenni a phrosiectau yn y pen draw, mae'n bwysig bod rôl gynghori'r GCE yn glir o'r dechrau un i aelodau'r grŵp ac unrhyw sylwedyddion allanol.

4. Aelodaeth

Cynigir y dylai aelodaeth y grŵp fod yn uchafswm o chwe aelod. Bydd hyn yn caniatáu i'r grŵp fod yn fwy ystwyth o ran trefniadau cyfarfod a bydd hefyd yn caniatáu mwy o adborth cyson yn uniongyrchol i'r Arweinwyr a'r Bwrdd. Awgrymir y gallai adborth i Arweinwyr fod yn uniongyrchol o bryd i'w gilydd, ar ôl i safbwyntiau gael eu ffurfio, a fydd yn sicrhau ymatebion heb eu drysu ac ymgysylltiad llawn â chynrychiolwyr gwleidyddol.

5. Cadeirio

Cynigir hefyd nad yw'r grŵp yn penodi Cadeirydd, o ystyried y nifer cyfyngedig o aelodau a'r adborth uniongyrchol y gellir ei alluogi. Byddai'r grŵp yn cael ei gefnogi a'i hwyluso gan Swyddogion fel bod gan bob aelod statws cyfartal a bod modd ystyried pob barn yn llawn.

6. Gwrthdaro Buddiannau Posibl

Fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r angen i adolygu'r trefniadau presennol gyda'r sector busnes yn deillio'n rhannol o'r ffaith y gallai gwrthdaro buddiannau posibl ddod i'r amlwg yn y dyfodol. Mae'n bwysig parhau i reoli'r potensial ar gyfer hyn wrth i'r Fargen Dwf ddatblygu dros y 10 i 15 mlynedd nesaf. Er mwyn lleihau'r risg o unrhyw wrthdaro o'r fath, awgrymir y bydd yn ofynnol i unrhyw aelod o'r GCE sy'n datblygu buddiant materol mewn unrhyw raglen neu brosiect ymddiswyddo o'r grŵp ar unwaith. Y Swyddog Monitro fyddai'r cymrodeddwr wrth bennu a oes unrhyw fuddiant materol yn bodoli, ond cyfrifoldeb pob aelod o'r GCE fyddai datgan unrhyw wrthdaro sy'n dod i'r amlwg cyn gynted â phosibl.

7. Recriwtio a Dethol

Cynigir, yn amodol ar y Bwrdd yn cytuno ar y ffordd ymlaen, y dylid gwahodd ceisiadau ar gyfer aelodaeth o'r grŵp yn ogystal â nodi unigolion posibl a chysylltu â nhw i wneud cais. Fel gydag unrhyw rôl, byddai'n ddefnyddiol pennu rhai gofynion sylfaenol ar gyfer y rhai y gellir eu penodi fel bod meini prawf cyson pe bai mwy o ymgeiswyr na lleoedd gwag. Awgrymir hefyd y dylai'r broses ddethol gael ei chynnal gan Arweinwyr y Cynghorau gyda chymorth a chynghor yn cael eu darparu gan Brif Weithredwyr y Cynghorau.

Gall meini prawf gynnwys y canlynol; -

- Arweinwyr Diwydiant yn enwedig o'r sectorau a nodwyd yn yr Achos Busnes Portffolio
- Yn gallu dangos y gallu i feddwl yn strategol
- Profiad uniongyrchol sylweddol o arwain busnes
- Cefndir entrepreneuriaidd
- Dull cydweithredol a'r gallu i weithio fel rhan o dîm

- Diddordeb ym muddiannau'r rhanbarth ac ymrwymiad iddynt

Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael cynrychiolwyr sydd â phrofiad o Fargeinion Twf eraill a/neu Bartneriaethau Menter Lleol. Gall hyn olygu cymysgedd o gynrychiolwyr busnes o'r tu mewn a'r tu allan i'r rhanbarth.

8. Y Ffordd Ymlaen

Yn amodol ar gymeradwyaeth neu welliant, mae'n bwysig bod recriwtio i'r Grŵp Cyngori Economaidd yn cael ei wneud yn ddi-oed er mwyn sicrhau ymgysylltiad busnes parhaus â datblygiad cam nesaf y Fargen Dwf. Yn ogystal, bydd cyswllt agos ag Arweinwyr y Cyngorau'n digwydd drwy bob cam recriwtio.

9. I'w ystyried a'i gymeradwyo

Gofynnir i'r Aelodau ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ochr yn ochr â'r Cylch Gorchwyl drafft ac awgrymu newidiadau priodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ganiatáu recriwtio i'r Grŵp Cyngori Economaidd.